**Canllaw arfaethedig i Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd .**

Nod y canllaw hwn yw cynnig arweiniad i ysgolion a chyrff llywodraethol pan fyddant yn llunio Cynllun Cyflawni yng nghyd-destun Y Gymraeg. Wrth lunio Cynllun Cyflawni, bydd disgwyl i ysgolion roi ystyriaeth lawn i Bolisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd (2025).

2.1: Amcanion Gweithredu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd 2025:

- Bydd pob ysgol yng Ngwynedd yn mabwysiadu Polisi Iaith ynghyd â Chynllun Cyflawni Addysg Gymraeg.
- Bydd Corff Llywodraethu pob ysgol yn sicrhau y bydd yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn unol â neu uwchlaw gofynion y Polisi.
- Bydd dyletswydd statudol ar y Corff Llywodraethu i gyflwyno drafft o'u Cynllun Cyflawni i Gyngor Gwynedd. Bydd Cyngor Gwynedd un ai'n derbyn neu'n gwrthod y Cynllun Cyflawni. Os bydd y Cynllun Cyflawni yn cael ei wrthod, bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r Corff Llywodraethu ail-ystyried y cynnwys. Rôl y Corff Llywodraethu yw cymryd pob cam ymarferol i weithredu'r Cynllun fydd wedi'i gytuno.
- Bydd Polisi Iaith Addysg yr ysgol a Chynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yn:
    - nodi'r nodau a'r amcanion wrth addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
    - nodi'r swm o addysg Gymraeg a ddarperir, gan sicrhau bod yr ysgol yn darparu addysg Gymraeg, yn unol â chategori ieithyddol yr ysgol.
    - amlinellu sut bydd y Corff Llywodraethu yn cyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu'r canran o addysg Gymraeg, yn unol â chategori ieithyddol yr ysgol.
    - nodi pa gamau bydd y Corff Llywodraethu yn eu cymryd i hybu addysg drochi hwyr.
    - nodi sut bydd y Corff Llywodraethu yn hybu ethos Gymraeg a Chymreig a defnydd o'r Gymraeg o fewn yr ysgol, a chefnogi rhieni nad ydynt yn siaradwyr hyderus o'r Gymraeg i gefnogi dysgu eu plant.
- Wrth lunio Cynllun Cyflawni'r Gymraeg bydd disgwyl i'r Corff Llywodraethu ymgynghori gyda swyddogion Awdurdod Addysg Gwynedd ar ei gynnwys.
- Bydd pob Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yn gyfredol am gyfnod o dair blwyddyn ysgol.
- Rhaid i ddrafft o Gynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yr ysgol gael ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd o leiaf naw mis cyn y cyfnod y daw i rym.
- Bydd y Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan Gyngor Gwynedd.